

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

24 Chwefror 2016

Yn bresennol: Mr A Archer (Dirprwy Gadeirydd yn Cadeirio), y Cynghorydd M James, y Cynghorydd L Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.20pm)

1. Croeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs E Williams, un o fenteion yr Awdurdod, i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mr D Ellis, Mrs G Hayward, y Cynghorydd DWM Rees a'r Cynghorydd M Williams

3. Datgelu buddiant

Dywedodd Mr A Archer fod ganddo fuddiant personol, ond nid un niweidiol, yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015, i'w cadarnau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015.

5. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am gyfarfod

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2016.

Mynegwyd pryder fod y staff yn dioddef ymddygiad ymosodol yn ystod eu gwaith, a nododd yr Aelodau eu bod hwythau wedi cael profiad o ymosodiadau llafar gan aelodau o'r cyhoedd. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn nad oedd pob digwyddiad o'r fath yn cael ei riportio, ac anogodd yr Aelodau i riportio popeth. Yn y gorffennol, cynigiwyd hyfforddiant mewn rheoli gwrthdaro ac agweddau ar iechyd a diogelwch, ac os oedd angen, gellid darparu rhagor o hynny.

Soniwyd hefyd am y toriadau yn y gyllideb, a'r cynnydd yn y straen yn y gweithle oherwydd hynny, ac esboniodd y Prif Weithredwr fod prosesau ar waith i reoli salwch a bod y sefyllfa yn cael ei monitro.



PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2016.

6. Gateway: Adroddiad "Bloc 2" Archwiliad Mewnol

Atgoffwyd y Rheolwr Cyllid gan y Pwyllgor mai dyma ail adroddiad Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Yn yr adroddiad roedd canfyddiadau a chasgliadau eu hadolygiad o lywodraethu corfforaethol a'r incwm a gynhyrchwyd, ynghyd â dilyniant i'r argymhellion a dderbyniwyd eisoes er mwyn asesu i ba raddau y cawsant yn eu gweithredu.

Ar ôl esbonio allwedd y canfyddiadau, cyfeiriodd y swyddog at gwmpas yr ymchwiliadau a'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad. O ran yr argymhelliad i gynnal archwiliad o sgiliau'r Aelodau o dan yr amcan llywodraethu corfforaethol, cydnabu'r Aelodau nad oeddent bob amser yn frwd dros gymryd rhan ym mhroses yr Awdurdod ar gyfer Datblygu Aelodau, a thrafodwyd sut y gellid gwella hyn.

Gan droi at yr argymhellion o dan y pennawd cynhyrchu incwm, gofynnwyd i'r Aelodau a allai'r rhain gael eu trafod gan y grŵp gorchwyl a gorffen 'Darparu Gwybodaeth i Ymwelwyr', a chytunwyd ar hyn.

NODWYD.

7. Perfformiad y Gyllideb am y Naw Mis hyd at fis Rhagfyr 2015

Yn adroddiad y Rheolwr Cyllid, roedd y gyllideb refeniw am y naw mis hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2015. Bryd hynny, roedd y gwariant yn £3977k, sef £549k o dan y gyllideb a bennwyd. Roedd y prif resymau pam fod y gwariant gwirioneddol yn wahanol i'r gyllideb ar gyfer pob adran gwasanaeth wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ond roeddynt yn ymwneud yn bennaf â materion amseru a bod yr incwm o'r canolfannau a'r meysydd parcio yn uwch na'r disgwyl. Yr eithriad oedd gostyngiad yn y gwerthiant yn Oriel y Parc o gymharu â'r llynedd. Ar ôl ymchwilio ymhellach, gwelwyd mai'r rheswm am hyn oedd gwerthiant uwch nag arfer mewn perthynas ag arddangosfa Peter Blake yn 2014/15. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch marchnata'r arddangosfa arfaethedig o waith Constable, ac atebodd y swyddogion eu bod yn gobeithio y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr, ac felly ar incwm a marchnata.

Gan edrych ar y rhagolygon refeniw, roedd arbedion wedi'u gwneud, ac roedd hyn, ynghyd â'r incwm ychwanegol, yn awgrymu y byddai gwarged o tua £116,000 yn y gyllideb. Soniwyd fod yr Awdurdod wedi gwneud cais am grant cyfalaf Mynediad gan Lywodraeth Cymru am brosiectau a oedd yn werth tua £180,000; pe byddai rhai o'r ceisiadau, neu hyd yn oed pob un ohonynt, yn llwyddiannus, gallai hyn gymryd lle rhyw gymaint o'r gwariant arfaethedig, gan ychwanegu at y gwarged a ragwelwyd.



Soniwyd fod y rhaglen gyfalaf wedi'i gostwng o'r gyllideb wreiddiol o £275.9k i gyllideb ddiwygiedig o £128.2k oherwydd bod rhai prosiectau wedi'u gohirio tan 2016/17. Roedd y manylion yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r perfformiad cyllidebol am y naw mis a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015 fel y nodir yn yr adroddiad.

8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft ar gyfer 2015/16

Soniwyd mai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol oedd y cyfrwng ar gyfer dangos pa mor llwyddiannus y bu'r Awdurdod o ran sicrhau gwelliant parhaus yn ei berfformiad, y systemau a'r prosesau rheoli penodol, ac roedd yn tynnu sylw at y materion llywodraethu yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. I baratoi'r datganiad drafft, roedd angen ystyried gwybodaeth o nifer o ffynonellau, fel y nodir yn yr adroddiad, a gwahoddwyd yr Aelodau i drafod cynnwys y datganiad drafft a gwneud awgrymiadau ar gyfer materion eraill i'w cynnwys ynddo.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y Datganiad drafft ac awrymwyd y gellid cyfeirio yn y ddogfen at agendâu electronig/cyfarfodydd di-bapur drwy ddefnyddio tabledi a gliniaduron mewn cyfarfodydd. Nodwyd y byddai Cyngor Sir Penfro yn cyflwyno system debyg cyn bo hir, ac awgrymwyd bod yr Awdurdod yn adolygu'r system ac yn dod yn ôl at yr Aelodau yn nes ymlaen yn y flwyddyn o ran ei gynigion ei hun. Hefyd, roedd angen cyfeirio yn y datganiad at effaith y Safonau Iaith Gymraeg, a gallu'r Awdurdod i gydymffurfio â hwy. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn rhag-weld y byddai cydymffurfio yn broblem, er bod angen gwneud gwaith ychwanegol mewn ambell faes. Roedd y pwynt olaf yn ymwneud â rôl y Pwyllgorau Craffu fel rhan o drefniadau Llywodraethu'r Awdurdod. Atebodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn bryd cynnal adolygiad o'r broses graffu yng ngoleuni'r astudiaethau a wnaed hyd yma, a byddai adroddiad ar hyn yn cael ei roi gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. Yn y cyfamser, roedd yr Aelodau wedi sefydlu nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen i edrych ar agweddau ar weithrediadau'r Awdurdod, ac roedd y rhain yn cyflawni rôl debyg.

Cytunodd y swyddogion i ymgorffori'r pwyntiau uchod o fewn y Datganiad. Fodd bynnag, anogwyd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a allai fod ganddynt. Byddai'r Datganiad yn dod yn ôl i'r Pwyllgor cyn cael ei anfon at gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w gymeradwyo.

NODWYD.

9. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2015



Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad am berfformiad Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol hyd yma. Ynghlwm wrth yr adroddiad, ac a gyflwynwyd hefyd yn y cyfarfod, roedd y prif gamau gweithredu a mesurau o fewn Gwasanaethau Corfforaethol. Roedd y rhain yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud ar bron bob un o'r camau gweithredu a mesurau, gan mai dim ond un ohonynt oedd yn dal yn 'goch'. Roedd hwnnw'n ymwneud â chynnydd yn y digwyddiadau lechyd a Diogelwch oherwydd yr anogaeth a roddwyd i rportio mwy o ddigwyddiadau. Roedd yr ychydig gamau gweithredu a oedd yn 'oren' naill ai wedi'u cyfyngu oherwydd blaenoriaethau eraill, neu oherwydd eu bod yn dibynnu ar gamau gweithredu y tu allan i'r Awdurdod. Roedd un cam gweithredu wedi newid o 'oren' i 'wyrdd' oherwydd roedd cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a oedd yn weddill ar gyfer 2015/16 wedi'i ddyrannu'n llawn ym Mhwyllgor y Gronfa ym mis Ionawr.

Holwyd ynghylch presenoldeb yn y Sioe Frenhinol a chadarnhaodd y Prif Weithredwr, er nad oedd gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol standin yn y sioe erbyn hyn, y byddent yn mynd i'r sioe ac yn cynnal digwyddiad tebyg i achlysur lansio'r Cynllun Mentora yn 2015.

Cafodd y Pwyllgor wybod hefyd am y mesurau a oedd yn ymwneud â Rheoli Datblygu, ac roedd y rhain yn dangos gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd cyn pen 8 wythnos yn ystod mis Rhagfyr. Fodd bynnag, roedd y ffigurau wedi gwella yn ystod mis Ionawr, pan oedd dros 80% wedi cael eu penderfynu cyn pen 8 wythnos. Er bod yr Awdurdod wedi llithro i lawr y 'tabl cynghrair' o awdurdodau cynllunio Cymru, y rheswm am hyn oedd gwelliant ym mherfformiad Awdurdodau eraill. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod perfformiad yr Awdurdod yn y maes hwn wedi'i gynnal, er bod y Pennaeth Rheoli Datblygu wedi gadael ac nad oedd unrhyw un wedi'i benodi yn ei le. Dywedodd y byddai cyfweiliadau yn cael eu cynnal cyn bo hir ar gyfer y swydd a ailhysbysebwyd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.

10. Y Gofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arwain yr Awdurdod, pryd y nodwyd y cynnydd a'r newidiadau diweddaraf.

Nid oedd unrhyw risgiau newydd wedi'u hychwanegu, ac nid oedd unrhyw rai wedi'u tynnu oddi yno ers i'r Gofrestr gael ei hystyried gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd un risg, sef effaith y Safonau o ran y Gymraeg, wedi'i gostwng o ganolig (oren) i isel (gwyrdd). Tynnodd y swyddog sylw at dair risg a oedd wedi cynyddu ychydig, a ddangoswyd gan 'saeth i fyny' a dwy



a oedd wedi gostwng ychydig, a ddangoswyd gan 'saeth i lawr', ond dywedodd nad oedd y newidiadau wedi bod yn ddigon i addasu'r lliwiau o ran lefel y risg.

NODWYD.

11. Dosbarthu Asedau'r Awdurdod a'r dulliau a ddefnyddir i brisio'r gwahanol ddsosbarthiadau hynny

Ar gais Aelodau'r Pwyllgor, mewn cyfarfod blaenorol, rhoddodd y Rheolwr Cyllid a'r Swyddog Ystadau gyflwyniad ynghylch canllawiau CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd) ar ddsosbarthu asedau'r Awdurdod a'r dulliau o brisio'r gwahanol ddsosbarthiadau hynny fel y'u pennwyd gan yr RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) a CIPFA. Cytunwyd i ddsosbarthu'r sleidiau i'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor nad oedd yn bresennol.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r gwahanol fathau o asedau a oedd gan yr Awdurdod, a sut yr oedd y rhain yn cael eu dangos ar y fantolen yn unol â chanllawiau CIPFA. Yna, dangosodd y swyddogion enghreifftiau o dair ased wahanol, a'r ystyriaethau a'r prosesau a oedd yn arwain at gael gwared â hwy. Sicrhawyd yr Aelodau fod pob ased yn destun ailwerthusiad ffurfiol yn rheolaidd, ac roedd yr asedau hynny a oedd yn werthfawr iawn yn cael eu hadolygu'n amlach.

NODWYD.

12. Dirprwyo materion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'w dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus eu hystyried.

